


# Toiledau Cyhoeddus yng Nghymru

## Awst 2025

## Cefndir

Mae diffyg darpariaeth toiledau cyhoeddus ledled Cymru'n broblem na fedr ei hanwybyddu bellach. Mae'n broblem i breswylwyr, grwpiau eiriolaeth a grwpiau mynediad, a thwristiaid, ac mae nifer o bobl yn poeni am iechyd cyhoeddus, glanweithdra, annibyniaeth a chydraddoldeb.

Mae toiledau cyhoeddus yn rhan hanfodol o'n cymunedau. Mae darpariaeth anaddas yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn, menywod, pobl anabl, pobl sy'n byw gyda chyflyrau meddygol, pobl sy'n gweithio tu allan ar eu pen eu hun, a'r digartref. Mae darpariaeth annigonol yn cael effaith ddifrifol ar y gymuned – mae nifer o'r bobl sy'n cael eu heffeithio'n osgoi gadael eu cartrefi, neu'n treulio llai o amser i fwrdd o'u cartrefi, ac mae canran fawr o bobl yn osgoi yfed digon o ddŵr pan maen nhw'n mynd allan.

Pan nad oes cyfleusterau digonol, mae pobl yn gofidio, yn colli eu hurddas, yn dioddef problemau iechyd, ynysigrwydd ac unigrwydd. Mae yna bryderon am yr effaith ar lanweithdra cyhoeddus, yn enwedig gyda'r nos yng nghanol trefi.

Yn 2011, mi wnaeth Cyfrifiannell Cymunedol Age Cymru ddargfanfod bod pobl yng Nghymru'n rhoi sgôr o 3.3 allan o 10 i fynediad at doiledau cyhoeddus yn eu cymunedau.

Yn yr un flwyddyn, lansiodd Senedd Pobl Hŷn Cymru eu hymgyrch 'P ar gyfer Pobl' gyda Diwrnod Gweithredu yn y Senedd. Yn 2012, cynhaliwyd arolwg helaeth ledled Cymru, a chafodd adroddiad ymchwil a phecyn cymorth eu dosbarthu.

Yn ystod y cyfnodau clo yn 2020, bu'n rhaid i nifer o gyfleusterau gau, a ni chafodd nifer o rain eu hail-agor wedi'r pandemig. Felly, roedd hyd yn oed llai o ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a thu allan i ganolfannau siopa.

Yn 2023, ail-lansiodd Fforwm Pobl Hŷn Cymru ymgyrch 'P ar gyfer Pobl' gydag arolwg Cymru-gyfan, gan ddarganfod bod anfodlonrwydd gyda darpariaeth toiledau wedi cynyddu ers arolwg 2012.

Hefyd yn 2023, cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wybodaeth am doiledau cyhoeddus yng Nghymru, gan wneud sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Yn 2024, cyflwynodd Fforwm Pobl Hŷn Cymru ddeiseb i Lywodraeth Cymru gan alw am arian a chefnogaeth ar gyfer darpariaeth toiledau cyhoeddus ddigonol. Trafodwyd y ddeiseb gan Y Pwyllgor Deisebau a gwnaethpwyd argymelliadau am ragor o arolygaeth gan Lywodraeth Cymru, rhannu arferion da, a bod angen i gynghorau ystyried y mater o safbwynt yr effaith gymdeithasol, yn hytrach na'r safbwynt ariannol. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gefnogol, nid oes ymrwymiad hyd yn hyd i wneud darpariaeth toiledau'n ofyniad statudol.

Yn dilyn y ddeiseb, cynhaliwyd trafodaeth bord gron gan Age Cymru, ac awgrymwyd Cynghrair Toiledau Cymru, a wnaeth gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2024. Roedd y canlynol yn rhan o'r drafodaeth: Y Gynghrair Toiledau Prydeinig, Crohn's & Colitis UK, Ymchwil Canser a Genetics UK, Colostomy UK, Muscular Dystrophy UK, Transaid Cymru, Age Cymru, Cyngrair Pobl Hŷn Cymru, Fforwm Pobl Hŷn Cymru, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Canlyniad trafodaethau'r Gynghrair yw'r adroddiad hwn.

## Strategaethau toiledau cyhoeddus awdurdodau lleol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cydnabod bod mynediad at doiledau yn fater sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Nid yw'r ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau, ond mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu asesiadau a chynlluniau. Mae nifer o grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd, a theuluoedd yn anghytuno, oherwydd bod hyn yn golygu bod y mater hwn yn dibynnu ar adroddiadau, yn hytrach na mynd i'r afael â'r broblem a gweithredu. Mae'n aneglur pa fath o oruchwyliaeth mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud o ran y strategaethau.

Yn 2019, cyhoeddwyd y strategaethau cyntaf gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Mi wnaeth gwaith ymchwil gan Age Cymru ar ran Fforwm Pobl Hŷn Cymru ym mis Mehefin 2024 a mis Mai 2025 ddangos nad oes gan bedwar awdurdod lleol strategaeth – Pen-y-Bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot a Bro Morgannwg. Er bod ceisiadau wedi cael eu cyflwyno am y strategaethau, nid oes unrhyw wybodaeth wedi cael ei rhannu. Yn ystod y gwaith ymchwil, wrth i geisiadau am ddogfennau gael eu cyflwyno i awdurdodau lleol, roedd diffyg gwybodaeth o ran pwy o fewn y cynghorau oedd yn gyfrifol am y strategaethau.

Mae angen adolygu'r strategaethau bob pum mlynedd (neu'n gynharach os oes angen). O'r 18 awdurdod lleol sydd yn barod i rannu eu strategaethau gyda'r cyhoedd, dim ond 12 sydd yn cynnal adolygiadau, ond mewn sawl achos doedd hi ddim yn amlwg bod y strategaeth wreiddiol wedi cael ei diweddaru er mwyn cynnwys unrhyw wybodaeth newydd. Mae Caerffili a Thorfaen yn nodi bod adolygiadau wedi digwydd yn 2023, ond nid oes dogfennau newydd ar gael, er gwaethaf sawl cais.

Mae nifer o strategaethau'r awdurdodau lleol yn cydnabod bod diffyg darpariaeth heb ymrwymo i wneud gwelliannau, er bod yna gefnogaeth frwd am gynlluniau toiledau cymunedol a chyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaethau, busnesau ac asiantaethau allanol. Mewn mannau ble mae cyfleusterau'r cyngor wedi cau, cyfyngiadau ariannol oedd y brif broblem, yn enwedig o ran gwaith cynnal a chadw oherwydd fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

O'r strategaethau sydd wedi cael eu cyhoeddi, roedd pob un yn nodi bydd eiddo'r cyngor fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn agor eu toiledau i'r cyhoedd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt hefyd yn nodi y byddwn nhw'n gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol er mwyn agor toiledau yn eu hadeiladau nhw. Er bod hyn yn cynyddu'r nifer o gyfleusterau mewn rhai ardaloedd, mae'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar oriau gwaith arferol a dydy hwn ddim yn cynyddu mynediad at doiledau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r holl strategaethau cyhoeddedig yn nodi bwriad i weithio mewn partneriaeth gyda busnesau. Ond mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael trafferth recriwtio busnesau oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos nad yw arian y cynllun toiledau cymunedol yn ateb yr ymrwymiad ariannol sydd ei angen ar fusnesau. Er bod busnesau mawr fel archfarchnadoedd yn cydnabod bod darparu toiledau'n denu cwsmeriaid ffyddlon, nid yw busnesau bach yn barod i ymrwymo i gyfrifoldebau sy'n dod law yn llaw gyda thoiledau cyhoeddus. Mae nifer o fusnesau sydd wedi agor eu toiledau i'r cyhoedd yn osgoi hyrwyddo hynny, a dydyn nhw ddim wedi cofrestru ar Fap Toiledau Prydain Fawr nac ar wefannau awdurdodau lleol. Eto, mae'n bwysig nodi bod y cyfleusterau ychwanegol hyn ar gael yn ystod oriau gwaith arferol, a dydyn nhw ddim yn mynd i'r afael â'r broblem mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r 18 strategaeth sydd wedi cael eu cyhoeddi wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned, ac asiantaethau allanol eraill. Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar weithio mewn partneriaeth wedi llwyddo i osgoi cau mwy na 100 o gyfleusterau ledled Cymru a oedd gynt yn cael eu cynnal gan gynghorau. Mae'n anodd asesu beth yw'r rhif cywir oherwydd nad yw pob strategaeth yn glir, ond mae'r awdurdodau canlynol yn adrodd bod yna lwyddiannau gyda'r model partneriaeth:

**Blaenau Gwent** – mae tri o doiledau wedi cael eu cadw gan gynghorau cymuned neu fusnesau

**Caerffili** – mae chwech o doiledau wedi cael eu hail-agor gan gynghorau cymuned a thrydydd partïon

**Conwy** – mae tri o doiledau'n cael eu cynnal gan gynghorau tref a chymuned

**Sir Ddinbych** – mae un set o doiledau'n cael ei gynnal gan gyngor cymuned

**Gwynedd** – mae'r strategaeth yn nodi bod gweithio mewn partneriaeth wedi osgoi cau 50 o doiledau

**Merthyr Tudful** –mae un set o doiledau wedi cael eu cadw gan gyngor cymuned

**Casnewydd** – mae'r strategaeth yn nodi bod 'nifer' o doiledau wedi cael eu gwerthu neu eu trosglwyddo i grwpiau cymuned

**Sir Benfro** – mae deg o doiledau'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan gynghorau tref neu gymuned ac mae pump wedi cael eu trosglwyddo

**Powys** – mae 56 o doiledau wedi cael eu trosglwyddo i doiledau cymuned, busnesau preifat, a chynghorau tref a chymuned

**Rhondda Cynon Taf** – mae'r strategaeth yn nodi bod trefniadau i drosglwyddo asedau wedi cynyddu toiledau Changing Places a hygyrch

Mae'r model partneriaeth cymunedol yn llwyddiannus os oes cymhwysedd ac arian digonol er mwyn ymrwymo i wneud ceisiadau am gyfleoedd.

Mae'n werth nodi er bod awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth, mae nifer o'r toiledau sy'n cael eu cynnal gan gynghorau'n gweithredu gydag oriau agor cyfyngedig, oriau agor tymhorol neu mae'r toiledau'n cau am gyfnodau. Nid oes llawer o ddarpariaeth am doiledau gyda'r nos, neu ar gyfer twristiaid sy'n dewis dod i Gymru tu allan i'r tymor traddodiadol.

Er bod rhai strategaethau'n rhestri argaeledd cyfleusterau hygyrch, nid yw hi'n amlwg bod y cyfleusterau hyn yn cael eu darparu gyda thoiledau cyffredin. Mae allweddi RADAR yn cael eu gwerthu ar-lein yn rhad – mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod gwell mynediad at doiledau'n arwain at achosion o fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae rhai grwpiau'n adrodd bod cyfleusterau hygyrch yn cael eu cloi i fyny er mwyn arbed fandaliaeth, gan olygu nad ydyn nhw'n hygyrch ar gyfer pobl sydd angen eu defnyddio.

Dydy hi ddim yn glir faint o doiledau Changing Places sydd ar gael mewn nifer o ardaloedd. Mae Cyngor Caerdydd wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar gynyddu'r nifer o gyfleusterau Changing Places, gan roi rhan fawr o'r strategaeth tuag at welliannau yn y maes hwn. Mae'r mwyafrif o gyfleusterau yng Nghaerdydd wedi eu lleoli mewn hybiau cymunedol.

Nid yw llawer o'r strategaethau'n sôn am doiledau rhywedd-niwtral neu gyfleusterau sy'n agored i bawb. Mewn ardaloedd ble mae datblygiadau newydd, mae'r strategaethau'n nodi bod cyfleusterau'n agored i bawb.

Er mwyn sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn hygyrch, mae angen bod gwybodaeth am leoliadau ar gael i bawb. Ym mhob agos ble wnaeth awdurdodau lleol gynnal a chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wnaeth ymateb nad oedd arwyddion digonol ar gyfer toiledau cyhoeddus. Er bod yr holl strategaethau'n nodi bod busnesau ac eiddo'r cyngor sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol yn arddangos sticer Llywodraeth Cymru, nid yw hi'n glir pa mor gyfarwydd yw'r arwydd hynny i aelodau o'r cyhoedd. Mae strategaeth Cyngor Caerdydd yn nodi nad yw logo Llywodraeth Cymru'n ddealladwy i bobl sy'n byw gyda dementia, ac maen nhw'n defnyddio eu fersiwn eu hun o'r logo. Mae angen gwella arwyddion ar hyd y strydoedd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o logo'r toiledau.

Mae Map Toiledau Prydain Fawr ar gael ar-lein yn unig, gan allgau pobl sydd heb ffôn clyfar, ac unrhyw un mewn ardaloedd heb signal ffonau symudol ddigonol. Mae yna dystiolaeth nad yw'r Map wedi cael ei ddiweddaru'n ddigonol, oherwydd bod rhai pobl yn adrodd bod cyfleusterau sydd wedi cau'n ymddangos ar y map. Er bod y rhan fwyaf o strategaethau awdurdodau lleol yn nodi bod gwybodaeth am leoliadau toiledau ar gael, maen nhw'n cyfeirio at dudalennau ar eu gwefannau, gan allgau pobl nad ydynt ar-lein.

## Pwyntiau allweddol

Mae pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn golygu bod 30 o doiledau'r cyngor wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod y data yn y strategaethau'n aneglur. Wrth gymharu hyn gyda gwasanaethau eraill, mae'n bosib barnu nad yw costau cynnal a chadw a staffio toiledau cyhoeddus yn bwysig, ond mae diffyg cyfleusterau'n creu nifer o broblemau.

Mae pobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr, pobl gyda chyflyrau meddygol, a menywod beichiog yn cael eu hallgau'n anghymesur rhag cymryd rhan yn eu cymunedau.

Mae gan ardaloedd gwledig hyd yn oed llai o gyfleusterau, ac weithiau nid oes cyfleusterau o gwbl, gan arwain at allgau cymunedol yn y cymunedau hynny. Mae hyn yn effeithio ar bobl sy'n gweithio ar eu pen eu hun yn yr awyr agored, sy'n ceisio peidio yfed yn ystod y dydd wrth weithio a theithio.

Yn aml, nid oes digon o doiledau mewn mannau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid, gan olygu fod pobl yn mynd i'r tŷ bach yn gyhoeddus gan effeithio ar yr amgylchedd a chreu problemau hylendid.

Dylid nodi bod darpariaeth toiledau ddigonol yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan yn eu cymunedau a chyfrannu tuag atynt, gan wella cyfleoedd sy'n ymwneud â chynhwysiant a thwf economaidd.

## Galwadau am weithredu

Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddyn nhw drosolwg o'r sefyllfa, a'u bod nhw'n chwarae rhan weithredol. Mae angen adolygu strategaethau awdurdodau lleol, ac arolygu cynnydd gweithrediadau.

Darparu arian ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gynnal a gwella toiledau cyhoeddus.

Mae angen cynhyrchu fframwaith ar gyfer arferion da, gan bwysleisio'r angen i feddwl am y broblem yn nhermau iechyd cyhoeddus a llesiant, a chynnwys cefnogaeth ar gyfer partneriaethau sy'n cydweithio gyda chynghorau tref a chymuned ar drefniadau trosglwyddo asedau.

Mae angen buddsoddi mewn gweithio gyda busnesau er mwyn hyrwyddo eu cynhwysiant yn y maes datblygu a gwella cymunedau.

Mae angen buddsoddi rhagor mewn cyfleusterau hygyrch, *Changing Places* a rhywedd-niwtral. Mae angen ystyried anghenion gwahanol yn ystod y cam cynllunio cychwynnol.

Mae angen gwella arwyddion ar hyd y strydoedd, a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o logo toiledau cymunedol.

Mae angen sicrhau bod gwybodaeth am leoliad y toiledau'n hygyrch i bawb, a bod modd dod o hyd i'r wybodaeth mewn sawl fformat, yn cynnwys copïau caled.

Mae angen sicrhau bod biniau a chyfleusterau newid bagiau stoma/padiau anymataliaeth ar gael mewn toiledau sy'n cael eu cynnal gan gynghorau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

age Cymru · Bro Oed-Gyfeillgar Age Friendly Vale · Colostomy UK · COPA Cynghrair Pobl Hyn Cymru Cymru Older People's Alliance · CROHN'S & COLITIS UK · NPC National Pensioners Convention Wales · CPC Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru · TRANS AID CYMRU · 50+ Forum Fforwm Vale of Glamorgan · Bro Morgannwg · Wales Seniors Forum · Fforwm Pobl Hŷn Cymru